

Y FFORWM GWEITHWYR.

19 Mehefin 2019

Yn bresennol:

Cynrychiolwyr Aelodau:

Mrs J James (yn dirprwyo ar ran A Archer), Cynghorydd R Owens, Dr RM Plummer a'r Cynghorydd M Williams.

Cynrychiolwyr Staff:

Mrs P Connah, Mr M George, Mrs D Hughes, Mrs J Morgan a Ms E Rooney.

Cynrychiolwyr Undeb:

Mr J Lewis (Unsain).

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 13.35am – 14.10pm)

1. Ethol Cadeirydd

Eglurodd y Prif Weithredwr mai arfer yr Awdurdod oedd i Gadeiryddion gael eu hethol o blith cynrychiolwyr yr Aelodau a'r staff am yn ail. Gan mai cynrychiolydd yr Aelodau oedd y Cadeirydd blaenorol, gofynnwyd am enwebiadau o blith staff yr Awdurdod.

PENDERFYNWYD ethol Mr Medi George yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

2. Ethol Dirprwy Gadeirydd

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd R Owens yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

3. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mr A Archer, Cynghorydd P Harries, Cynghorydd P Kidney a Mr Richard Hughes.

4. Cyflwyniadau

Cyflwynodd pob un eu hunain i weddill y Fforwm Gweithwyr.

5. Datgan Buddiannau

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

6. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 3^{ydd} o Hydref 2018 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

CYTUNWYD i gadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar



y 3^{ydd} o Hydref 2018.

7. Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd

Roedd Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Penfro wedi datgan Argyfwng Hinsawdd oedd wedi codi'r cwestiwn a ddylai'r Awdurdod gael ymateb mwy uniongyrchol i'r argyfwng hwn.

Dywedodd y Cadeirydd wrth Aelodau'r Fforwm y byddai'r eitem hon yn cael ei chyflwyno gerbron y Cynrychiolwyr Staff yn eu cyfarfod ar y 4^{ydd} o Orffennaf, a gofynnwyd felly am farn yr Aelodau ar y pwnc. Cyflwynwyd y camau yr oedd yr Awdurdod eisoes yn eu cymryd; ymhlith y camau hyn oedd nodi bod yr adeilad yn Llanion eisoes yn gyfeillgar i'r amgylchedd, roedd 50 o Eco Friciau a wnaed gan y Staff wedi cael eu trosglwyddo i'w defnyddio yn hytrach na mynd i safleoedd tirlenwi, roedd gwyrddu'r fflyd yn parhau ac roedd yr Awdurdod yn edrych i osod pwyntiau gwefru ceir trydan, roedd Castell Caeriw yn treialu cerbyd trydan, ac roedd disgwyl i brosiect ar osod pwyntiau ail-lenwi dŵr mewn meysydd parcio gael ei gyflwyno yn ddiweddarach eleni. Hefyd roedd sesiynau wedi'u cynnal yn Oriol y Parc ar gyfer 20 o ysgolion ar Blastig Morol a'i Effaith ar yr amgylchedd.

Roedd yr Aelodau yn falch bod staff wedi cyflwyno'r eitem hon yn y Fforwm Gweithwyr a'u bod yn awyddus i'r Awdurdod wneud mwy.

Awgrymwyd y gellid trefnu cyflwyniad gan y Ganolfan Technoleg Amgen, a gwneud mwy o waith o ran rhannu ceir a defnyddio cerbydau trydan. Roedd aelodau eraill y Fforwm o'r farn y byddai'n dda cael rhan weithredol mewn ailgoedwigo oherwydd ar hyn o bryd roedd 13% o dir y DU wedi'i orchuddio â choed a bod angen i'r ffigur hwn gynyddu i 25% i fod yn garbon niwtral. Roedd yr aelodau hefyd o'r farn bod llw o ymwelwyr fyddai'n cael eu denu i'r Parc am resymau eco gyfeillgar, a bod yr Awdurdod mewn sefyllfa dda i arloesi a dylanwadu yn y maes hwn. Hefyd barnwyd nad oedd yr Awdurdod yn ddigon gweladwy o ran y gwaith oedd eisoes yn cael ei wneud ac y byddai darn golygyddol yn Coast to Coast 2020 yn sôn am y gwaith sydd wedi'i wneud a'r hyn y bwriedir ei wneud yn dda o beth.

Dywedodd y Cynrychiolydd Unsain bod ei undeb yn ymdrechu i leihau ei ôl troed carbon, ac roedd hefyd o'r farn ei bod yn bwysig cyflenwi nwyddau yn foesebol ar gyfer eitemau a werthir yn ein canolfannau.

Hysbysodd y Prif Weithredwr aelodau'r Fforwm y byddai swydd newydd yn cael ei hysbysebu cyn hir i wneud y rhwydwaith Hawliau Tramwy yn fwy cyfeillgar i beillwyr. Hefyd dywedodd bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal darn o waith ar Risg Hinsawdd ac wedi datblygu methodoleg i fesur carbon ar draws y sector cyhoeddus ac y byddai'r adroddiad 2013 ar Newid Hinsawdd angen ei ddiweddarau. Roedd angen i'r Awdurdod



hefyd gysylltu risg hinsawdd â'i Gofrestr Ystadau a'r Gofrestr Risg. Barnai'r Prif Weithredwr y gellir cadw'r ddysgl yn wastad rhwng polisïau a'r heriau ariannol, ac yn barnu y byddai pobl yn dod yn fwy ymwybodol wrth i amser fynd heibio.

Byddai'r pwnc yn cael ei drafod yn y Grŵp Cynrychiolwyr Staff a byddai papur yn amlinellu sut oedd yr Awdurdod yn ymateb i Newid Hinsawdd yn cael ei ddwyn yn ôl i'r Aelodau yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

PENDERFYNWYD y byddai adroddiad yn cael ei ddrafftio, yn amlinellu sut mae'r Awdurdod yn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd, i'w drafod gan yr Aelodau.

